# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Gwener, 15 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
L. Alvarez, Swyddog y Biwro;
R. Furlong, Cydgysylltydd Datblygu Economaid;
A. Nicholas, Rural Regeneration Officer;
C. Owen, Swyddog y Biwro;
T. Peregrine, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin:10.00 am - 11.00 am**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU -3 HYDREF, 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2019 yn gofnod cywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir a Chronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| **Y Gronfa Cyllid a Dargedir** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| TFF-19-02 | Canolfan Ceufad Padlwyr Llandysul Cyf | £14,000.00 |
| TFF-19- 03 | Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin (Dr Mz) | £20,000.00 |

| **Cronfa'r Degwm** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| WCF-19-20 | Capel Bethlehem - Llangadog | £1,435.00 |
| WCF-19-19 | Capel yr Annibynwyr Saron | £3,000.00 |
| WCF-19-23 | Sgiliau Adeiladu Cyfle Cyf | £5,700.00 |
| WCF-19-22 | Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch | £3,000.00 |
| WCF-19-21 | Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin (Dr Mz) | £3,000.00 |
| WCF-19-27 | Clwb Rygbi Llandeilo | £10,000.00 |
| WCF-19-26 | Cyngor Tref Cwmaman | £1,725.78 |
| WCF-19-24 | Eglwys Annibynnol Bryn Iwan | £3,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| WCF-19-28 | Eglwys Sant Cwrdaf | £3,000.00 |
| WCF-19-29 | Capel yr Annibynwyr Salem | £2,283.89 |
| WCF-19-31 | Eglwys Sant Pedr, Llanybydder | £2,655.00 |
| WCF-19-32 | Uned Sgowtiaid Fforio Myrddin<br>[10 sgowt bellach yn mynd ar Daith Her Ryngwladol] | £1,500.00 |
| WCF-19-30 | Capel yr Annibynwyr Nebo | £2,821.25 |

**4. MEINI PRAWF ARFOR**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y broses gwneud cais a blaenoriaethu arfaethedig ar gyfer Cronfa Grant Rhaglen ARFOR. Nod y Gronfa oedd sicrhau twf economaidd a ffyniant yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin, drwy alluogi pobl i gael cyfleoedd gwaith mewn cymunedau lleol a fyddai'n cyfrannu at sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r broses gwneud cais a blaenoriaethu arfaethedig ar gyfer ARFOR, fel y manylwyd arni yn yr adroddiad.**

**5. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**6. CYMORTH ARIANNOL GAN RAGLEN ARFOR**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Yn dilyn cofnod 4 uchod bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o gronfa ARFOR.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa ARFOR yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Cronfa Grant Rhaglen ARFOR | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AG1-03 | Mêl Gwenyn Gruffydd Honey | £7,479.71 |
| AG1-04 | Menter Dinefwr | £50,000.00 |
| AG1-05 | Stiwdiobox | £27,547.99 |

**7. CRONFA MENTER GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN & RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| CREF 101 | Carmichael’s Building Services | £16,676.63 |

| Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| K. & E. Evans mewn perthynas â 25 Heol yr Orsaf, Llanelli [Grant Gwella a Datblygu Eiddo] | £64,113.00 |
| K. & E. Evans mewn perthynas â 25 Heol yr Orsaf, Llanelli [Grant Byw'n Gynaliadwy] | £20,000.00 |

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**